# Codi arian deallusrwydd artiffisial (Templed)

Er mwyn cael y canlyniadau gorau wrth ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial i godi arian, argymhellir yn fawr y dylid darparu'r wybodaeth mewn fformat clir a fydd yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd Deallusrwydd Artiffisial yn creu/camddehongli'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu.

**Nid oes angen ichi gael yr holl wybodaeth hon, ond po fwyaf y byddwch yn ei darparu, y gorau fydd yr ymateb a gewch.**

## 1. Manylion y mudiad

- **Cryno ond addysgiadol** (2–3 brawddeg fesul adran).
- Nodwch yn glir enw a statws eich mudiad, yr hyn y mae eich mudiad yn ei wneud a pham ei fod yn gredadwy.
- Os nad yw'r cyllidwr yn gyfarwydd â'ch gwaith, darperwch hanes byr ac amlygwch **gyflawniadau mawr**. Gallai hyn gynnwys unrhyw farciau ansawdd hefyd

## 2. Crynodeb o'r prosiect

- **Byr ac uniongyrchol** (4–6 brawddeg)—fel crynodeb sydyn.
- Dylech gynnwys pwy, **beth, ble, pryd, a pham** mewn un paragraff.

## 3. Yr angen am y prosiect



- **Yn fanwl ac yn seiliedig ar dystiolaeth** (1–2 baragraff).
- **Nodwch pwy fydd y buddiolwyr**

- Dylech gynnwys **ystadegau, astudiaethau achos, neu dystebau** i brofi bod y broblem yn bodoli.
- Esboniwch **pam nad yw'r gwasanaethau presennol yn ddigon** a sut mae eich prosiect yn llenwi'r bwlch.
- Sut y cynhwyswyd y gymuned wrth nodi'r angen am y gwaith?
- Pam fod angen y prosiect yn awr?
- A oes dysg o waith yn y gorffennol neu o'ch gwaith monitro y gallwch ei darparu?

## 4. Gweithgareddau y prosiect

- **Rhagor o fanylion** (pwyntiau bwled neu 1–2 baragraff fesul gweithgaredd allweddol).
- Amlinellwch yn union **beth fydd yn digwydd, pa mor aml, a phwy fydd yn ei gyflawni**.
- Mae cyllidwyr eisiau **darlun clir** o sut y bydd eu harian yn cael ei ddefnyddio.
- Beth yw'r amserlenni ar gyfer cyflawni

## 5. Y canlyniadau disgwyliedig a'r effaith

- **Yn glir ac yn fesuradwy** (1–2 baragraff a phwyntiau bwled os oes angen).
- Beth fydd **gwella i'r buddiolwyr?**
- Defnyddiwch **ganlyniadau SMART** (Penodol Mesuradwy Cyraeddadwy Realistig Amser-gyfyngedig).
- Enghraifft: *"Bydd 100 o ffoaduriaid yn derbyn cymorth cyfreithiol, a bydd 70% yn llwyddo i sicrhau statws lloches o fewn 12 mis."*

## 6. Sut y bydd canlyniadau yn cael eu cofnodi a'u hadrodd

- Sut bydd y canlyniadau yn cael eu cofnodi, ac unrhyw ddangosyddion prosiect.
- Sut y bydd gwybodaeth yn cael ei hadrodd a'i defnyddio i gefnogi'r broses o ddysgu yn y dyfodol

## 7. Beth yw sgiliau pobl sy'n rhedeg y mudiad

- Trosolwg byr o'r bobl allweddol sy'n rhedeg y mudiad (1–2 baragraff a phwyntiau bwled os oes angen).
- Dylech gynnwys, er enghraifft, y ffaith eich bod yn cael eich arwain gan bobl sy'n elwa o'r gwasanaeth

## 8. Yr hyn sy'n gwneud y prosiect a/neu'r mudiadau yn arbennig

- Unrhyw beth sy'n eich gosod ar wahân i fudiadau tebyg (1-2 frawddeg neu bwyntiau bwled)

## 9. Dadansoddiad o'r gyllideb

- Mae angen union ffigurau.
- Tablau sy'n gweithio orau i ddangos dadansoddiad clir o'r gost.
- Gwnewch yn si r eich bod yn glir pa rannau o'r gyllideb y bydd cyllid cyfatebol yn talu amdanynt (os o gwbl).
- Mae rhai cyllidwyr hefyd yn gofyn am gyfiawnhad dros gostau mawr (ee, pam fod cyflog staff o £40,000 yn hanfodol).

# 10. Cynaliadwyedd a chynlluniau ar gyfer y dyfodol

- 1–2 baragraff sy’n esbonio sut y bydd y prosiect yn para y tu hwnt i’r grant.
- Mae cyllidwyr yn hoffi gweld na fydd eu buddsoddiad yn cael ei wastraffu ar ôl i’r cyllid ddod i ben.
- Dangoswch gynlluniau ar gyfer cyllid, partneriaethau neu gynhyrchu incwm ychwanegol.